


[DRAFFT] Cod Safonau Haen 1

Gweithredu Deddf y Cyfryngau: Rheoleiddio
fideo-ar-alw

Drafft wedi'i gyhoeddi ar gyfer ymgynghoriad: 14 Mai 2026



Cynnwys

Cod Safonau Haen 1 Drafft – Cyflwyniad Arfaethedig.....	4
Adran Un: Diogelu'r Rhai Dan Ddeunaw Oed	6
Adran Dau: Niwed a Throsedd	8
Adran Tri: Trosedd, anhrefn, casineb a cham-drin	10
Adran Pedwar: Crefydd	13
Adran Pump: Didueddrwydd a Chywirdeb Dyledus	14
Adran Chwech: Etholiadau a Refferenda	16
Adran Saith: Tegwch.....	19
Adran Wyth: Preifatrwydd.....	23

DRAFT FOR CONSULTATION

Cod Safonau Haen 1 Drafft

Cyflwyniad arfaethedig

Mae'n ofynnol i Ofcom o dan Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 (fel y'i diwygiwyd) ("y Ddeddf") a Deddf Darlledu 1996 (fel y'i diwygiwyd) ("Deddf 1996") lunio cod ("y Cod Safonau Haen 1") sy'n cynnwys safonau ar gyfer cynnwys rhaglenni a gynhwysir mewn gwasanaethau Haen 1 ("Gwasanaethau Haen 1") fel y'u diffinnir yn y Ddeddf.¹

Mae'r Cod Safonau Haen 1 wedi'i gynllunio i'w ddefnyddio gan y cyhoedd a darparwyr Haen 1. Fe'i nodir yn nhermau egwyddorion, ystyr a rheolau ac, ar gyfer Adrannau saith (Tegwch) ac wyth (Preifatrwydd), mae hefyd yn cynnwys set o 'arferion i'w dilyn' gan Wasanaethau Haen 1. Er bod yr egwyddorion yno i helpu darllenwyr i ddeall y pwrpas y tu ôl i bob adran, rhaid i ddarparwyr Haen 1 gydymffurfio â'r rheolau.² Mae'r ystyron yn helpu i esbonio beth mae Ofcom yn ei fwriadu gan rai o'r geiriau a'r ymadroddion a ddefnyddir yng Nghod Safonau Haen 1.

Bydd Cod Safonau Haen 1 yn berthnasol i'r canlynol:

- (i) Holl raglenni ar-alw sydd ar gael ar Wasanaethau Haen 1;
- (ii) Rhaghysbysebion neu ragflasau, boed y rhain yn cael eu dewis yn weithredol gan y gwyliwr neu'n cael eu chwarae'n awtomatig pan fydd y gwyliwr yn cyrchu'r Gwasanaeth Haen 1 neu'n rhyngweithio â'r gwasanaeth fel arall, a
- (iii) Gwasanaethau mynediad (h.y. is-deitlau, sain-ddisgrifiad a chynnwys wedi'i arwyddo).

Ni fydd y Cod Safonau Haen 1 yn berthnasol i:

- (i) Rhaglenni sy'n cael eu ffrydio'n fyw yn hytrach na'u darparu ar sail ar-alw (nid ydym yn ystyried rhaglenni ffrydio'n fyw fel rhai sy'n dod yn ar-alw dim ond oherwydd bod swyddogaeth seibiant neu ailgychwyn byw ar gael neu'n cael ei defnyddio). Pan fo rhaglenni wedi'u ffrydio'n fyw ar gael ar-alw wedyn, bydd y Cod Safonau Haen 1 yn berthnasol i'r rhaglenni ar-alw hynny;
- (ii) Delweddau statig, a
- (iii) Crynodebau rhaglen.

At ddibenion y Cod Safonau Haen 1, nid yw "rhaglen" yn cynnwys hysbysebion ond fel arall mae'n cynnwys unrhyw gynnwys fideo gyda neu heb sain sydd ar gael ar y Gwasanaeth Haen 1, waeth beth fo'u hyd. Er mwyn osgoi amheuaeth, mae hyn yn cynnwys rhagflasau a rhaghysbysebion.

Wrth gymhwyso'r Cod Safonau Haen 1 i raglenni, dylai darparwyr Haen 1 fod yn ymwybodol bod y cyd-destun lle mae deunydd yn ymddangos ynddo yn allweddol. Wrth baratoi'r Cod drafft hwn, mae Ofcom wedi ystyried (fel sy'n ofynnol gan adran 368HH(1) o'r Ddeddf) y canlynol:

¹ Fel y nodir yn adran 368HA o'r Ddeddf, diffinnir Gwasanaeth Haen 1 fel gwasanaeth rhaglenni ar-alw sy'n cael ei ddefnyddio gan ddarlledwr gwasanaeth cyhoeddus, heblaw'r BBC, i gyfrannu at gyflawni ei gylch gwaith gwasanaeth cyhoeddus, a gwasanaeth rhaglen ar-alw, neu wasanaeth rhaglenni ar-alw nad yw'n rhan o'r DU sydd wedi'i ddynodi'n Wasanaeth Haen 1 gan Reoliadau Gwasanaethau Rhaglenni Ar-alw (Gwasanaethau Haen 1) 2026. (Gwasanaeth sydd â nifer cyfartalog o ddefnyddwyr misol yn y Deyrnas Unedig sy'n fwy na 500,000).

² Adran 368HJ o'r Ddeddf

- (a) disgwyliadau tebygol cynulleidfaoedd posibl ynghylch natur cynnwys rhaglenni sydd wedi'u cynnwys yn benodol mewn Gwasanaethau Haen 1;
- (b) graddfa'r niwed neu'r tramgwydd gallai gael ei achosi gan gynnwys unrhyw fath penodol o gynnwys, boed mewn rhaglenni'n gyffredinol neu mewn mathau penodol o raglenni;
- (c) oedran cynnwys rhaglenni penodol neu fathau penodol o raglenni sydd wedi'u cynnwys mewn Gwasanaethau Haen 1;
- (d) i ba raddau, a'r ffyrdd y gellir rhoi gwybodaeth am natur cynnwys mathau penodol o raglenni, neu raglenni penodol mewn ffordd sy'n galluogi unigolion i wneud dewisiadau ynghylch a ydyn nhw (neu eraill y maent yn gyfrifol amdanynt) yn gwylio neu'n parhau i wyllo'r cynnwys hwnnw;
- (e) yr effaith debygol y bydd angen ystyriaeth er mwyn gwylio Gwasanaethau Haen 1 penodol neu raglenni penodol sydd wedi'u cynnwys mewn Gwasanaethau Haen 1;
- (dd) hyd yr amser y mae rhaglenni penodol wedi'u cynnwys mewn Gwasanaethau Haen 1; a
- (e) dymunoldeb cynnal annibyniaeth rheolaeth olygyddol dros gynnwys rhaglenni.

Fel y nodir yn adran 368HR o'r Ddeddf, mae Cod Safonau Haen 1 yn berthnasol i Wasanaethau Haen 1 dim ond i'r graddau y maent ar gael i'w defnyddio gan aelodau'r cyhoedd yn y Deyrnas Unedig.

Wrth gymhwyso a gorfodi'r Cod Safonau Haen 1, bydd Ofcom hefyd yn ystyried adrannau perthnasol y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol ("y Confensiwn"), yn enwedig yr hawl i ryddid mynegiant fel y nodir yn Erthygl 10, yr hawl i ryddid meddwl, cred a chrefydd a nodir yn Erthygl 9, a'r hawl i fywyd preifat a theuluol sydd wedi'i ymgorffori yn Erthygl 8.

Nid yw'r Cod Safonau Haen 1 yn ceisio mynd i'r afael â phob amgylchiad a allai godi a gall darparwyr wynebu nifer o sefyllfaoedd unigol nad ydynt yn cael eu cyfeirio'n benodol. Nid yw enghreifftiau sydd wedi'u cynnwys yn y Cod Safonau Haen 1 yn gynhwysfawr, fodd bynnag, dylai'r egwyddorion egluro beth mae'r Cod Safonau Haen 1 wedi'i gynllunio i'w gyflawni a helpu darparwyr i wneud y dyfarniadau angenrheidiol.

Er mwyn cynorthwyo darparwyr a gwylwyr ymhellach, bydd canllawiau i gyd-fynd â'r Cod Safonau Haen 1 hefyd yn cael eu cyhoeddi ar wefan Ofcom a'u hadolygu pan yn angenrheidiol.

Gall darparwyr Gwasanaeth Haen 1 gynnwys rhaglenni ar unrhyw bwnc o'u dewis ond disgwylir iddynt sicrhau bob amser bod eu rhaglenni'n cydymffurfio â chyfreithiau perthnasol y DU, yn ogystal â'r Cod Safonau Haen 1.

Yn ogystal â'r rheolau yn y Cod Safonau Haen 1, dylai darparwyr Gwasanaeth Haen 1 ymgyfarwyddo â'r Rheolau Gwasanaethau Rhaglenni Ar-lein statudol ("Rheolau Gwasanaethau Rhaglenni Ar-alw (ODPS)"). Mae'n ofynnol i bob Gwasanaeth Rhaglenni Ar-alw (gan gynnwys Gwasanaethau Rhaglenni Ar-alw nad ydynt yn y DU sy'n Wasanaethau Haen 1) gydymffurfio â'r Rheolau Gwasanaethau Rhaglenni Ar-alw.³

³ Nid yw'n ofynnol i ODPS nad ydynt yn y DU sy'n Wasanaethau Haen 1 gydymffurfio â'r Rheolau ODPS sy'n ymwneud â Gweithiau Ewropeaidd a nodir yn adran 368CB o'r Ddeddf.

Adran Un: Diogelu Plant Dan Ddeunaw Oed

Rhaid darllen yr adran hon ar y cyd ag Adran Dau: Niwed a Thramgwydd

Egwyddor

Sicrhau bod pobl dan ddeunaw oed yn cael eu diogelu

Rheolau

Rheolau Statudol ar gyfer pob Darparwr Gwasanaethau Rhaglenni Ar-Alw (ODPS) ac ODPS Haen 1 y tu allan i'r DU

Mae'r rheolau yn yr adran hon yn berthnasol i Wasanaethau Haen 1 yn ogystal â'r Rheolau ODPS yn y maes hwn. O berthnasedd arbennig i'r Adran hon yw'r rheol ODPS ganlynol:

Deunydd Niweidiol: Diogelu Rhai Dan 18 Oed (Deunydd Cyfyngedig Arbennig).

Rhaid i berson sy'n darparu gwasanaeth rhaglen ar-alw gymryd mesurau priodol i sicrhau bod unrhyw ddeunydd arbennig ar gael gan y gwasanaeth mewn modd sy'n sicrhau na fydd pobl dan 18 oed fel arfer yn ei weld na'i glywed.

Mae'r mesurau fod yn gymesur â photensial y deunydd i niweidio datblygiad corfforol, meddyliol neu foesol y bobl hynny.

Ystyr "deunydd cyfyngedig arbennig" ydy -

- a) gwaith fideo y mae'r awdurdod gweithiau fideo wedi cyhoeddi tystysgrif dosbarthu R18 mewn perthynas ag ef;
- b) deunydd lle mae ei natur yn golygu ei bod yn rhesymol disgwyl hynny, pe bai'r deunydd wedi'i gynnwys mewn gwaith fideo a gyflwynwyd i'r awdurdod gweithiau fideo am dystysgrif dosbarthu, y byddai'r awdurdod gweithiau fideo yn cyhoeddi tystysgrif dosbarthu R18; neu
- c) deunydd arall a allai amharu ar ddatblygiad corfforol, meddyliol neu foesol pobl o dan 18 oed.

Wrth benderfynu a yw unrhyw ddeunydd yn dod o dan (b), rhaid ystyried unrhyw ganllawiau a gyhoeddwyd gan yr awdurdod gweithiau fideo ynghylch ei bolisi mewn perthynas â mater dosbarthu.

Nodyn: Mae esboniad llawn o'r gofynion statudol hyn, ynghyd â'r holl reolau statudol gweinyddol a golygyddol eraill, ar gael [ar wefan Ofcom](#).

Cyfranogiad pobl o dan ddeunaw oed mewn rhaglenni

- 1.A:** Rhaid cymryd gofal dyledus dros lesiant ac urddas pobl dan ddeunaw oed sy'n cymryd rhan neu sy'n ymwneud â rhaglenni sydd wedi'u cynnwys yng Ngwasanaethau Haen 1. Mae hyn waeth beth fo unrhyw ganiatâd a roddwyd gan y cyfranogwr neu gan riant, gwarcheidwad neu berson arall dros ddeunaw oed in loco parentis.

1.B: Ni ddylid achosi trallod neu bryder digyfiawnhad i bobl o dan ddeunaw oed fel rhan o raglenni sydd wedi'u cynnwys yng Ngwasanaethau Haen 1.

Sylw i droseddau rhywiol a throseddau eraill yn y DU sy'n cynnwys pobl dan ddeunaw oed

1.C: Lle mae cyfyngiadau statudol neu gyfreithiol eraill yn berthnasol sy'n atal adnabod personol, dylai Gwasanaethau Haen 1 fod yn arbennig o ofalus i beidio â darparu gwybodaeth a allai arwain at adnabod y rhai nad ydynt yn oedolyn eto (gall yr oedran a ddiffinnir yn gyfreithiol amrywio mewn gwahanol rannau o'r DU) ac sydd neu a allai fod, yn rhan o achos troseddau rhywiol a nodwyd mewn achosion llys troseddol, sifil neu deuluol (gan gynnwys, er enghraifft, fel dioddefwr, tyst neu ddiffynnydd):

- trwy adrodd am unrhyw wybodaeth bersonol neu adnabod;
- drwy adrodd ar wybodaeth gyfyngedig y gellir ei chyfuno â gwybodaeth arall sydd ar gael mewn manau eraill, er enghraifft mewn adroddiadau papurau newydd ('effaith jig-so');
- yn anfwriadol, er enghraifft trwy ddisgrifio trosedd fel "llosgach"; neu
- mewn unrhyw ffordd anuniongyrchol arall.

(Nodyn: Dylai Gwasanaethau Haen 1 fod yn ymwybodol y gallai fod cyfyngiadau adrodd statudol sy'n berthnasol hyd yn oed os nad yw llys wedi gwneud gorchymyn penodol i'r perwyl hwnnw.)

1.D: Wrth ymdrin ag unrhyw ymchwiliad cyn treial i drosedd honedig yn y DU, dylai Gwasanaethau Haen 1 roi sylw arbennig i sefyllfa agored i niwed unrhyw berson nad yw eto'n oedolyn sy'n ymwneud â thyst neu ddioddefwr neu barti arall â diddordeb, cyn cynnwys eu henw, cyfeiriad, hunaniaeth ysgol neu sefydliad addysgol arall, man gwaith, neu unrhyw lun llonydd neu symudol ohonynt. Mae angen cyfiawnhad penodol hefyd ar gyfer cynnwys deunydd o'r fath sy'n ymwneud â hunaniaeth unrhyw berson nad yw eto'n oedolyn sy'n ymwneud â'r amddiffyniad fel diffynnydd neu ddarpar ddiffynnydd.

Adran Dau: Niwed a Throsedd

Rhaid darllen yr adran hon ar y cyd ag Adran Un: Diogelu'r Rhai Dan Ddeunaw Oed

Egwyddor

Sicrhau bod safonau a dderbynnir yn gyffredinol yn cael eu cymhwyso i'r cynnwys sydd wedi'i gynnwys mewn Gwasanaethau Haen 1 er mwyn darparu amddiffyniad digonol i aelodau o'r cyhoedd rhag cynnwys deunydd sarhaus a niweidiol.

Rheolau

Rheolau Statudol ar gyfer pob Darparwr Gwasanaethau Rhaglenni Ar Alw (ODPS) ac ODPS Haen 1 y tu allan i'r DU

Mae'r rheolau yn yr adran hon yn berthnasol i Wasanaethau Haen 1 yn ogystal â'r Rheolau ODPS. Mae'r Rheolau ODPS hyn yn cynnwys gofynion sy'n ymwneud â **Deunydd Niweidiol** a all fod yn berthnasol i'r Adran hon. Mae esboniad llawn o'r gofynion statudol hyn, ynghyd â'r holl reolau statudol gweinyddol a golygyddol eraill ar gael ar [wefan Ofcom](#).

- 2.A:** Rhaid cymhwyso safonau a dderbynnir yn gyffredinol i gynnwys rhaglenni sydd wedi'u cynnwys mewn Gwasanaethau Haen 1 er mwyn darparu amddiffyniad digonol i wylwyr rhag cynnwys a allai fod yn niweidiol (gweler enghreifftiau o ddeunydd a allai fod yn niweidiol isod).

Enghreifftiau o gynnwys a allai fod yn niweidiol:

Gall cynnwys a allai fod yn niweidiol, yn dibynnu ar y cyd-destun, gynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i) y canlynol:

- honiadau neu gyngor a allai effeithio ar benderfyniadau gwylwyr ar faterion arwyddocaol fel eu hiechyd neu gyllid;
- darluniau o ymddygiad niweidiol, peryglus neu ddirifol wrthgymdeithasol difrifol sy'n debygol o annog eraill i gopïo ymddygiad o'r fath; neu
- darluniau o hunanladdiad neu hunan-niwed (gweler hefyd Rheol 2.D).

- 2.B:** Ni ddylai rhaglenni neu eitemau ffeithiol neu bortreadau o faterion ffeithiol a gynhwysir mewn Gwasanaethau Haen 1 gamarwain gwylwyr yn sylweddol mewn modd a allai achosi niwed neu dramgwydd.

- 2.C:** Wrth gymhwyso safonau a dderbynnir yn gyffredinol, rhaid i Wasanaethau Haen 1 sicrhau bod cynnwys a allai achosi tramgwydd yn cael ei gyfiawnhau gan y cyd-destun (gweler ystyr "cyd-destun" ac enghreifftiau o ddeunydd a allai achosi tramgwydd isod).

Enghreifftiau o gynnwys a allai achosi tramgwydd

Gall cynnwys a allai achosi tramgwydd gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i: iaith sarhaus, trais, rhyw, trais rhywiol, gwarth, gofid, torri urddas dynol, triniaeth wahaniaethol neu iaith (er enghraifft ar sail oedran, anabled, ailbennu rhywedd, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, rhyw a chyfeiriadedd rhywiol, a phriodas a phartneriaeth sifil), a thrin pobl sy'n

ymddangos fel pe baent mewn perygl o niwed sylweddol o ganlyniad i gymryd rhan mewn rhaglen.

Ystyr ar gyfer "cyd-destun" ar Wasanaethau Haen 1

Mae'r cyd-destun yn cynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i):

- natur y cynnwys;
- graddfa'r niwed neu'r tramgwydd sy'n debygol o gael ei achosi gan y cynnwys;
- y gwasanaeth y mae'r cynnwys wedi'i gynnwys ynddo;
- i ba raddau, a'r ffyrdd y mae gwybodaeth am natur y cynnwys a'r dulliau o gael mynediad iddo wedi'i darparu i wylwyr posibl i'w galluogi i wneud dewisiadau ynghylch a ydynt yn gwylio neu'n parhau i wylwyr cynnwys;
- disgwyliadau tebygol gwylwyr posibl ynghylch natur y cynnwys;
- oedran y cynnwys;
- hyd yr amser y mae'r cynnwys wedi'i gynnwys yn y gwasanaeth; ac
- yr effaith debygol o orfod talu er mwyn gweld gwasanaeth neu raglen benodol.

Hunanladdiad a hunan-niweidio

2.D: Ni ddylid cynnwys darluniau neu arddangosiadau manwl o hunanladdiad neu hunan-niweidio mewn rhaglenni Gwasanaethau Haen 1 oni bai bod y cyd-destun yn cyfiawnhau hynny'n glir. Mewn unrhyw ddogwyddiad, rhaid osgoi manylion penodol sy'n cynnwys dulliau newydd neu anarferol oni bai bod cyfiawnhad golygyddol eithriadol.

Negeseuon isymwybodol, ac epilepsi olau-sensitif

2.E: Ni ddylai rhaglenni sydd wedi'u cynnwys mewn Gwasanaethau Haen 1 ddefnyddio technegau sy'n manteisio ar y posibilrwydd o gyfleu neges i wylwyr, neu ddylanwadu ar eu meddyliau fel arall heb iddynt fod yn ymwybodol, neu'n gwbl ymwybodol, o'r hyn sydd wedi digwydd.

2.F: Rhaid i Wasanaethau Haen 1 gymryd rhagofalon i gynnal lefel isel o risg i wylwyr sydd ag epilepsi olau-sensitif. Lle gall gwasanaethau ddangos bod cynnwys goleuadau fflachio a/neu batrymau wedi'u cyfiawnhau yn olygyddol, dylid rhoi gwybodaeth ddigonol ymlaen llaw i wylwyr am ei gynnwys.

Cystadlaethau a phleidleisio

2.G: Dylid cynnal cystadlaethau ac ymarferion pleidleisio mewn rhaglenni sydd wedi'u cynnwys mewn Gwasanaethau Haen 1 yn deg. Yn benodol, dylid gwneud yn glir i wylwyr a yw'r gystadleuaeth neu'r bleidlais yn parhau i fod ar agor.

Ystyr cystadleuaeth

Cystadleuaeth neu raffl wobrau am ddim sydd wedi'i chynnwys mewn rhaglen sydd wedi'i chynnwys mewn Gwasanaethau Haen 1 lle gwahoddir gwylwyr i gystadlu drwy unrhyw fodd am y cyfle i ennill gwobr.

Ystyr pleidleisio

Nodweddion mewn unrhyw raglenni sydd wedi'u cynnwys mewn Gwasanaethau Haen 1 lle gwahoddir gwylwyr i gofrestru pleidlais drwy unrhyw fodd i benderfynu neu ddylanwadu, ar unrhyw gam, ar ganlyniad cystadleuaeth.

Adran Tri: Trosedd, anhrefn, casineb a cham-drin

Egwyddor

Sicrhau nad yw deunydd sy'n debygol o annog neu ysgogi cyflawni trosedd neu arwain at anhrefn wedi'i gynnwys yng Ngwasanaethau Haen 1.

Rheolau

Rheolau Statudol ar gyfer pob Darparwr Gwasanaethau Rhaglenni Ar Alw (ODPS) ac ODPS Haen 1 y tu allan i'r DU

Mae'r rheolau yn yr adran hon o'r Cod Safonau Haen 1 yn berthnasol i Wasanaethau Haen 1 yn ogystal â'r Rheolau ODPS yn y maes hwn. O berthnasedd arbennig i'r Adran hon mae'r rheolau ODPS statudol canlynol:

Deunydd niweidiol: Deunydd sy'n debygol o ysgogi Casineb

Ni ddylai ODPS gynnwys unrhyw ddeunydd sy'n debygol o ysgogi trais neu gasineb yn erbyn grŵp o bobl neu aelod o grŵp o bobl yn seiliedig ar unrhyw un o'r seiliau y cyfeirir atynt yn Erthygl 21 o Siarter Hawliau Sylfaenol yr Undeb Ewropeaidd 7 Rhagfyr 2000, fel y'i mabwysiadwyd yn Strasbwrg ar 12 Rhagfyr 2007.

Deunydd Niweidiol: Deunydd Gwaharddedig

Ni ddylai ODPS gynnwys unrhyw ddeunydd gwaharddedig.

Ystyr "Deunydd Gwaharddedig" yw:

- a) Deunydd y byddai ei gynnwys mewn gwasanaeth rhaglen ar-alw yn drosedd o dan Adran 1 o Ddeddf Terfysgaeth 2006 (annog terfysgaeth),
- b) Deunydd y byddai ei gynnwys mewn gwasanaeth rhaglenni ar-alw yn ymddygiad o fath a fyddai, yn syth cyn diwrnod cwblhau IP, wedi bod yn ofynnol gan unrhyw un o'r canlynol i fod yn gosbadwy fel trosedd—
 - i) [wedi'i adael yn wag yn fwriadol]
 - ii) Erthygl 5(4) o Gyfarwyddeb 2011/93/EU Senedd Ewrop a'r Cyngor dyddiedig 13 Rhagfyr 2011 ar fynd i'r afael â cham-drin rhywiol a chamfanteisio rhywiol ar blant a phornograffi plant, neu
 - iii) Erthygl 1 o Benderfyniad Fframwaith y Cyngor (2008/913/JHA) o 28 Tachwedd 2008 ar fynd i'r afael â rhai mathau penodol o fynegiant hiliaeth a senoffobia drwy gyfraith droseddol.
- c) Gwaith fideo y mae'r awdurdod gweithiau fideo wedi penderfynu at ddibenion Deddf Recordiadau Fideo 1984 nad yw'n addas i dystysgrif ddosbarthu gael ei chyhoeddi mewn perthynas ag ef, neu
- d) Deunydd y mae ei natur yn golygu ei bod yn rhesymol disgwyl, pe bai'r deunydd wedi'i gynnwys mewn gwaith fideo a gyflwynir i'r awdurdod gweithiau fideo am dystysgrif

dosbarthu, y byddai'r awdurdod gweithiau fideo yn penderfynu, at y dibenion hynny, nad oedd y gwaith fideo yn addas i dystysgrif dosbarthu gael ei chyhoeddi mewn perthynas ag ef.

Nodyn: Ceir esboniad llawn o'r gofynion statudol hyn, ynghyd â'r holl reolau statudol gweinyddol a golygyddol eraill, ar gael ar [wefan Ofcom](#).

Annog trosedd, ac anhrefn

3.A: Ni ddylid cynnwys rhaglenni sy'n debygol o annog neu ysgogi cyflawni trosedd, neu arwain at anhrefn yng Ngwasanaethau Haen 1.

Nodyn: O dan Reol 3.A gall "rhaglenni" gynnwys ond nid yw'n gyfyngedig i:

- rhaglenni sy'n cyfateb yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol i alwad i weithredu troseddol neu anhrefn.
- rhaglenni sy'n hyrwyddo neu'n annog ymgysylltu â gweithgarwch troseddol.

Nid yw "rhaglenni" o dan Reol 3.A yn cynnwys "Deunydd sy'n debygol o annog casineb" neu "Deunydd Gwaharddedig" o dan y Rheolau'r Gwasanaethau Rhaglenni Ar-alw.

Ystyr "trosedd"

Gall hyn ymwneud ag unrhyw drosedd o dan gyfraith y DU y gellir ei chosbi â charchar neu ddirwy.

Ystyr "anhrefn"

Mae hyn yn cynnwys, ond nid yw'n gyfyngedig, i'r drosedd o anhrefn sifil.

Ystyr "sy'n debygol o annog neu ysgogi cyflawni trosedd neu arwain at anhrefn".

Ni fydd portread o drosedd, neu o ysgogi troseddu, o reidrydd yn arwain at dorri Rheol 3.A. Bydd y tebygolrwydd y bydd cynnwys yn annog trosedd neu'n arwain at anhrefn yn dibynnu ar natur y deunydd yn ogystal â'r cyd-destun y caiff ei gyflwyno i'r gynulleidfa.

Gall ffactorau cyd-destunol arwyddocaol o dan Reol 3.A gynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i):

- pwrpas a natur golygyddol y rhaglen;
- statws neu safle unrhyw un sy'n ymddangos yn y rhaglen; a/neu
- a ddarperir digono her o fewn y rhaglen.

Er enghraifft, efallai y bydd mwy o botensial i dorri Rheol 3.A os yw rhaglen yn ceisio dylanwadu ar y gynulleidfa ar bwnc neu thema, neu'n darparu llwyfan anfeirniadol i ffigwr awdurdodol eirioli dros weithgarwch neu anhrefn troseddol.

Efallai y bydd llai o botensial i dorri Rheol 3.A os darperir safbwyntiau gwrthwynebol a digon o her i bobl neu sefydliadau sy'n eiriol dros weithgarwch neu anhrefn troseddol, neu lle mae rhaglen yn ceisio darparu archwiliad o neu sylwebaeth ar weithgarwch troseddol neu anhrefn er budd y cyhoedd.

Triniaeth gamdriniol a dirmygus

Nodyn: Mae Rheol 3.B yn adlewyrchu'r amcan y safonau bod safonau a dderbynnir yn gyffredinol yn cael eu cymhwyso i'r cynnwys a gynhwysir mewn Gwasanaethau Haen 1 er mwyn darparu amddiffyniad digonol i aelodau'r cyhoedd rhag cynnwys deunydd sarhaus a niweidiol.

Dylid darllen Rheol 3.B ar y cyd ag ystyr "cyd-destun" yn Adran Dau: Niwed a Throsedd.

3.B: Ni ddylid cynnwys rhaglenni sy'n cynnwys triniaeth gamdriniol neu ddirmygus o unigolion, grwpiau, crefyddau neu gymunedau mewn Gwasanaethau Haen 1 oni bai bod y cyd-destun yn ei gyfiawnhau.

Portreadau o drosedd ac achosion troseddol

3.C: Ni ddylid cynnwys rhaglenni sy'n cynnwys disgrifiadau neu arddangosiadau o dechnegau troseddol sy'n cynnwys manylion hanfodol a allai alluogi cyflawni trosedd mewn Gwasanaethau Haen 1 oni bai bod cyfiawnhad golygyddol dros hynny.

3.D: Ni chaniateir gwneud unrhyw daliad, addewid o daliad na thaliadau mewn nwyddau i droseddwr a gafwyd yn euog neu a gyffeswyd, boed yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, am gyfraniad at raglen gan y troseddwr (neu unrhyw berson arall) sy'n ymwneud â'i drosedd/au. Yr unig eithriad yw lle mae er budd y cyhoedd.

3.E: Tra bod achos troseddol ar waith, ni chaniateir gwneud unrhyw daliad nac addewid o daliad, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, i unrhyw dyst nac unrhyw berson y gellir yn rhesymol ddisgwyl iddo gael ei alw'n dyst. Ni ddylid awgrymu na gwneud unrhyw daliad yn ddibynnol ar ganlyniad yr achos llys chwaith. Dim ond gwariant gwirioneddol neu golled enillion a gafwyd yn angenrheidiol wrth wneud cyfraniad at raglen y gellir eu had-dalu.

3.F: Lle mae achos troseddol yn debygol ac yn rhagweladwy, ni ddylid gwneud taliadau i bobl y gellid disgwyl yn rhesymol iddynt fod yn dystion oni bai bod budd cyhoeddus clir, fel ymchwilio i drosedd neu gamwedd difrifol, a bod y taliad yn angenrheidiol i ennyn y wybodaeth. Lle gwneir taliad o'r fath, bydd yn briodol datgelu'r taliad i'r amddiffyniad a'r erlyniad os yw'r person yn dod yn dyst mewn unrhyw achos llys dilynol.

Adran Pedwar: Crefydd

Egwyddorion

Sicrhau bod Gwasanaethau Haen 1 yn arfer y lefel briodol o gyfrifoldeb mewn perthynas â chynnwys rhaglenni crefyddol sydd wedi'u cynnwys yn eu gwasanaethau.

Sicrhau nad yw rhaglenni crefyddol yn cynnwys unrhyw gamfanteisio amhriodol ar unrhyw dueddiadau gan y gynulleidfa i raglen o'r fath.

Sicrhau nad yw rhaglenni crefyddol yn cynnwys unrhyw gam-driniaeth o safbwyntiau a chredoau crefyddol y rhai sy'n perthyn i grefydd neu enwad crefyddol penodol.

Rheolau

Rheolau Statudol ar gyfer pob Darparwr Gwasanaethau Rhaglenni Ar-alw (ODPS) ac ODPS Haen 1 y tu allan i'r DU

Mae'r rheolau yn yr adran hon yn berthnasol i Wasanaethau Haen 1 yn ogystal â'r Rheolau ODPS. Mae'r Rheolau ODPS hyn yn cynnwys gofynion sy'n ymwneud â **Deunydd Niweidiol** a all fod yn berthnasol i'r Adran hon.

Nodyn: Ceir esboniad llawn o'r gofynion statudol hyn, ynghyd â'r holl reolau statudol gweinyddol a golygyddol eraill, ar gael ar [wefan Ofcom](#).

- 4.A:** Rhaid i Wasanaethau Haen 1 arfer y lefel briodol o gyfrifoldeb mewn perthynas â chynnwys rhaglenni sydd wedi'u cynnwys yn eu gwasanaethau sy'n rhaglenni crefyddol.
- 4.B:** Ni ddylai rhaglenni crefyddol sydd wedi'u cynnwys mewn Gwasanaethau Haen 1 gynnwys unrhyw gam-fanteisio amhriodol ar unrhyw dueddiadau gwylwyr.
- 4.C:** Ni ddylai rhaglenni crefyddol sydd wedi'u cynnwys mewn Gwasanaethau Haen 1 gynnwys unrhyw gamdriniaeth o safbwyntiau a chredoau crefyddol y rhai sy'n perthyn i grefydd neu enwad crefyddol penodol.

Ystyr "rhaglen grefyddol"

Rhaglen grefyddol yw rhaglen sy'n ymdrin â materion crefydd fel pwnc canolog, neu fel rhan sylweddol, o'r rhaglen.

Adran Pump: Didueddrwydd a Chywirdeb Dyledus

Egwyddorion

Sicrhau bod newyddion, ym mha bynnag ffurf, yn cael eu hadrodd gyda chywirdeb dyledus ac yn cael eu cyflwyno gyda didueddrwydd dyledus.

Sicrhau bod gofynion didueddrwydd arbennig y Ddeddf yn cael eu cydymffurfio.

Rheolau

Didueddrwydd a chywirdeb dyledus mewn newyddion

5.A: Rhaid adrodd newyddion, ym mha bynnag ffurf y'u cynhwysir mewn Gwasanaeth Haen 1, gyda chywirdeb dyledus a'u cyflwyno gyda didueddrwydd dyledus.

Ystyr "didueddrwydd dyledus"

Mae "dyledus" yn gymhwyster pwysig i'r cysyniad o ddiueddrwydd. Mae didueddrwydd ei hun yn golygu peidio â ffafrio un ochr dros y llall. Mae "dyledus" yn golygu digonol neu briodol i bwnc a natur y rhaglen. Felly nid yw "didueddrwydd dyledus" yn golygu bod yn rhaid rhoi rhaniad cyfartal o amser i bob barn, neu fod rhaid cynrychioli pob dadl a phob agwedd ar bob dadl.

Gall y dull o ddiueddrwydd dyledus amrywio yn ôl:

- natur y pwnc a'i berthnasedd a'i bwysigrwydd tebygol i wylwyr;
- y math o raglen a gwasanaeth y cafodd ei gynnwys ynddo;
- y graddau y cafodd y cynnwys a'r dull i wylwyr posibl; a
- disgwyliad tebygol gwylwyr.

Mae'r cyd-destun, fel y'i diffinnir yn Adran Dau: Niwed a Throsedd o God Safonau Haen 1, yn bwysig.

5.B: Fel arfer, dylid cydnabod a chywiro camgymeriadau sylweddol mewn newyddion sydd wedi'u cynnwys mewn Gwasanaeth Haen 1 yn gyflym. Dylid rhoi gwybod i wylwyr am gywiriadau'n briodol.

5.C: Ni chaniateir defnyddio unrhyw wleidydd fel darllenydd newyddion, cyfwelydd na gohebydd mewn unrhyw raglenni newyddion sydd wedi'u cynnwys yng Ngwasanaethau Haen 1 oni bai, yn eithriadol, ei fod wedi'i gyfiawnhau'n olygyddol. Yn yr achos hwnnw, rhaid egluro teyrngarwch gwleidyddol y person hwnnw i wylwyr.

Gofynion didueddrwydd arbennig: newyddion a rhaglenni eraill

Ystyr "materion dadleuol gwleidyddol neu ddiwydiannol a materion sy'n ymwneud â pholisi cyhoeddus cyfredol"

Materion dadleuol gwleidyddol neu ddiwydiannol yw materion gwleidyddol neu ddiwydiannol y mae gwleidyddion, diwydiant a/neu'r cyfryngau yn trafod.

Nid oes angen i faterion sy'n ymwneud â pholisi cyhoeddus cyfredol fod yn destun dadl ond maent yn ymwneud â pholisi sydd dan drafodaeth neu sydd eisoes wedi'i benderfynu gan lywodraethau lleol, rhanbarthol neu genedlaethol neu gan gyrff sydd â mandad i lunio polisi ar eu rhan, er enghraifft sefydliadau anlywodraethol, sefydliadau rhyngwladol perthnasol ac ati.

Bydd hyn yn cynnwys materion o bwys cenedlaethol neu ryngwladol fel etholiadau a refferenda (gweler Adran Chwech: Etholiadau a Refferenda y Cod Safonau Haen 1 am ystyr etholiadau a refferenda).

Gwahardd safbwyntiau neu farnau

- 5.D:** Rhaid i raglenni sydd wedi'u cynnwys mewn Gwasanaethau Haen 1 eithrio pob mynegiad o safbwyntiau a barn y person sy'n darparu'r gwasanaeth ar faterion sy'n ddadleuol yn wleidyddol neu'n ddiwydiannol a materion sy'n ymwneud â pholisi cyhoeddus cyfredol (oni bai bod y person hwnnw'n siarad mewn fforwm deddfwriaethol neu mewn llys barn). Mae safbwyntiau a barn sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau rhaglenni ar-alw nad ydynt yn y DU hefyd wedi'u heithrio o'r gofyniad hwn.

Cadw didueddrwydd dyledus

- 5.E:** Rhaid cadw didueddrwydd dyledus ar faterion sy'n ddadleuol yn wleidyddol neu'n ddiwydiannol a materion sy'n ymwneud â pholisi cyhoeddus cyfredol mewn rhaglenni sydd wedi'u cynnwys yn Wasanaethau Haen 1. Gellir cyflawni hyn o fewn un rhaglen neu mewn rhaglenni lluosog sydd wedi'u hysbysu'n briodol i wylwyr.
- 5.F:** Ni ddylid cam-gynrychioli safbwyntiau a ffeithiau mewn rhaglenni sydd wedi'u cynnwys mewn Gwasanaethau Haen 1 mewn modd a fyddai'n cwestiynu cadw didueddrwydd dyledus.
- 5.G:** Rhaid egluro i'r gynulleidfa unrhyw fuddiant personol gohebydd neu gyflwynydd, a fyddai'n cwestiynu didueddrwydd dyledus raglen sydd wedi'u chynnwys mewn Gwasanaeth Haen 1.

Ystyr "barn bersonol" a "awdurol"

Rhaglenni sy'n cyflwyno barn neu safbwynt penodol yw rhaglenni "barn bersonol". Gall rhaglenni barn bersonol amrywio o fynegi barn rhannol iawn yn uniongyrchol, er enghraifft gan berson sy'n aelod o grŵp lobio ac sy'n ymgyrchu ar y pwnc, i farn "awdurol" ystyriol newyddiadurwr, sylwebydd neu academydd, sydd ag arbenigedd proffesiynol neu arbenigedd mewn maes sy'n ei alluogi i fynegi barn nad yw o reidrwydd yn brif ffrwd.

- 5.H:** Gall cyflwynwyr a gohebwy (gan eithrio cyflwynwyr newyddion a gohebwy mewn rhaglenni newyddion), cyflwynwyr rhaglenni neu eitemau "barn bersonol" neu "awdurol", a chadeiryddion rhaglenni trafod mynegi eu barn eu hunain ar faterion sy'n destun dadl wleidyddol neu ddiwydiannol neu faterion sy'n ymwneud â pholisi cyhoeddus cyfredol. Fodd bynnag, rhaid cynrychioli safbwyntiau amgen yn ddigonol naill ai yn y rhaglen, neu mewn rhaglenni lluosog sydd wedi'u hysbysu'n briodol i wylwyr.

Adran Chwech: Etholiadau a Refferenda

Egwyddor

Sicrhau bod y gofynion didueddrwydd arbennig yn Neddf Cyfathrebiadau 2003 a deddfwriaeth berthnasol arall sy'n ymwneud ag etholiadau a refferenda yn cael eu cymhwyso adeg etholiadau a refferenda.

Rheolau

Rhaglenni sydd wedi'u cynnwys mewn Gwasanaethau Haen 1 adeg etholiadau a refferenda yn y DU

Mae'r adran hon ond yn berthnasol i raglenni sydd newydd gael eu cynnwys mewn Gwasanaethau Haen 1 yn ystod cyfnod yr etholiad neu'r refferendwm a ddiffinnir isod.

- 6.A:** Ni ddylai Gwasanaethau Haen 1 gynnwys unrhyw drafodaeth a dadansoddiad newydd o faterion etholiadau a refferendwm y DU tra bod pleidleisio ar agor. (Cyfeiria hyn at agor gorsafoedd pleidleisio go iawn. Nid yw'r rheol hon yn berthnasol i unrhyw bleidlais barn a gynhelir yn gyfan gwbl drwy'r post.)
- 6.B:** Ni ddylai Gwasanaethau Haen 1 gynnwys canlyniadau unrhyw arolwg barn ar ddiwrnod pleidleisio ei hun nes i'r etholiad neu'r refferendwm gau.
- 6.C:** Ni ddylai ymgeiswyr mewn etholiadau'r DU, a chynrychiolwyr cyfranogwyr a ganiateir mewn refferenda'r DU, weithredu fel cyflwynwyr newyddion, cyfwelwyr na chyflwynwyr unrhyw fath o raglen sydd newydd gael ei chynnwys mewn Gwasanaeth Haen 1 yn ystod cyfnod yr etholiad.
- 6.D:** Nid oes angen tynnu ymddangosiadau gan ymgeiswyr (mewn etholiadau'r DU) neu gynrychiolwyr (cyfranogwyr a ganiateir mewn refferenda'r DU) mewn rhaglenni anwleidyddol a oedd wedi'u cynnwys mewn Gwasanaeth Haen 1 neu a gynlluniwyd cyn cyfnod yr etholiad neu'r refferendwm. Ni ddylid cynnwys rhaglenni sy'n cynnwys ymddangosiadau gan ymgeiswyr neu gynrychiolwyr mewn rhaglenni anwleidyddol o'r newydd mewn Gwasanaethau Haen 1 yn ystod cyfnod yr etholiad neu'r refferendwm.

Ystyr "etholiad"

